# Moliant ar y Maes … a mwy

Bob blwyddyn fe fydd y Sioe Fawr yn Llanelwedd yn ddathliad o bob dim sy'n digwydd ym maes amaeth yng Nghymru wrth i dros 150,000 o bobl ymweld â hi dros gyfnod o bedwar diwrnod. Ynghanol hyn i gyd mae Pabell yr Eglwysi, dan nawdd Cytûn, yn dystiolaeth weledol ar y maes, a gwaith amhrisiadwy'r tîm o gaplaniaid sy'n crwydro'r maes o fore tan nos. Yma, mae Aled Davies yn crynhoi ychydig o waith yr eglwysi yn Sioe eleni.

D-132! Dyna ein plot arbennig ni ar faes y Sioe, a dyna'r darn o dir dwi wedi treulio dyddiau'n sefyll arno dros gyfnod y Sioe am dros 30 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn bu cydweithrediad agos iawn rhwng yr eglwysi a swyddogion y Sioe, a gwerthfawrogiad gan y Gymdeithas o'r hyn sy'n cael ei wneud gennym.

Bob blwyddyn bydd y Sioe yn dechrau'n ffurfiol gyda gwasanaeth yn eglwys Llanfair-ym-Muallt, gyda chaplan y Llywydd yn cael y fraint o draethu. Eleni, tro Sir Forgannwg oedd noddi'r Sioe, a'r cyn-Archesgob Barry Morgan oedd yn pregethu, ar wahoddiad y Llywydd. Braf oedd gweld yr eglwys yn gyfforddus lawn, gan gynnwys holl brif swyddogion y Sioe. Yn dilyn y gwasanaeth, roedd y gynulleidfa wedyn yn gwneud eu ffordd yn ôl i faes y Sioe yn Llanelwedd ar gyfer Moliant y Maes, sef y gymanfa ganu flynyddol, gyda chynulleidfa o tua 1,200 o bobl. Mae hon yn gymanfa ddwyieithog, ac eleni roedd côr meibion o ochr ddwyreiniol y sir a band pres o ochr orllewinol y sir yn arwain y mawl. Braf gweld pobl o bob oed yn y gymanfa bob blwyddyn, a hynny mewn awyrgylch anffurfiol yn y sied ddefaid.

Am 7.30 o'r gloch bore Llun roedd pabell yr eglwysi yn fan cyfarfod i'r tîm o gaplaniaid, er mwyn cynnal cwrdd gweddi boreol cyn cychwyn ar waith y dydd. Diolch am waith diflino'r caplaniaid, sy'n crwydro'r maes o fore tan nos yn sgwrsio a gwrando ar ffermwyr a phwy bynnag sy'n falch o sgwrs. Roeddem ninnau yna fel Cytûn yn agor ein drysau i'r cyhoedd am 8 o'r gloch, gyda phaned a *Welsh cake* i bawb oedd yn troi i mewn atom. Bob dydd am 11 o'r gloch roedd gennym oedfa fer, ac eleni fe'n harweiniwyd dros y pedwar diwrnod gan gadeirydd Cytûn, Jennie Hurd; Prif Weithredwr Cytûn, Siôn Brynach; Andrew Sully, Pennaeth dros dro Cymorth Cristnogol Cymru, a minnau hefyd yn cymryd fy nhro, gyda Delyth yn cyfeilio ar yr allweddellau bob dydd.

O fewn y babell roedd gennym waith plant o fore tan nos, a hynny yng ngofal tîm gwaith plant Esgobaeth Aberhonddu ac Abertawe. Undeb y Mamau oedd yn gofalu am y lluniaeth, ac eleni cafwyd *Welsh cakes* yn y Sioe am y tro cyntaf, gan ddilyn esiampl yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd stondin lyfrau yno, ac arddangosfa gan Gymorth Cristnogol, ARocha ac Embrace the Middle East.

Mae stondin fawr arall nid nepell oddi wrthym bob blwyddyn hefyd, sef Show Jesus, gyda chriw hwyliog o ogledd Gwent yn cynnal y bwrlwm yno, ynghyd â stondin gan y Mudiad Efengylaidd. Gyda'r nos hefyd roedd tîm o Fugeiliaid y Stryd allan yn cyfarfod a chynorthwyo pobl ar y stryd.

Bu'n Sioe lwyddiannus iawn eto eleni, a diolch ein bod ni fel Cristnogion yn cael y cyfle i wasanaethu a thystio yn ei chanol hi. Un peth sy'n wahanol iawn i ni fel stondinwyr yw'r ffaith ein bod yn cael cysgu dros nos ar y maes, yn ein carafán tu cefn i'r stondin. Dros y blynyddoedd rydym wedi creu perthynas dda gyda'n cyd-stondinwyr, y stiwardiaid a'r bobl sy'n llnau'r toiledau ayyb, gyda llawer ohonynt i mewn ac allan o'n stondin yn nôl diodydd a galw heibio am sgwrs. Difyr yw cyfarfod yr un bobl o flwyddyn i flwyddyn a chael cyfle i feithrin perthynas, sydd i raddau'n fath arall o gaplaniaeth dros weithwyr y Sioe.



Esgob Abertawe ac Aberhonddu, John Lomas, yn mwynhau paned tra'n sgwrsio gyda rhai o wirfoddolwyr y stondin




Y caplaniaid yn trafod gwaith y dydd cyn cychwyn allan i grwydro'r maes




Siôn Brynach yn arwain gwasanaeth ar y stondin fore Mercher



Bwrlwm y babell wrth i bobl fwynhau sgwrs a phanad



Y gynulleidfa a'r côr ym 'Moliant y Maes' ar y nos Sul